Arolygu darpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol

Adroddiad meithrin ar Cylch Meithrin Talwrn

Arolygydd Addysg Feithrin Cofrestredig: Martin Cray

Dyddiad yr arolygiad: 27 / 28 Ionawr 2010 (boreau)

Rhif y Contract: T/048/09N

Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Adroddiad ar arolygu lleoliadau meithrin yn y sector nas cynhelir

Enw'r feithrinfa: Cylch Meithrin Talwrn

Cyfeiriad: Neuadd Bentref Talwrn
Talwrn
Llangefni
Ynys Môn

Côd Post: LL77 7ST

Ffôn: 01248 712783

Person sy'n gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd: Sandra Jones

Swydd: Arweinydd

Ynglŷn â'r arolygiad

Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol yng Nghymru. Fe'i comisiynwyd gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion er mwyn i ddarparwyr allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a helpu plant i gyflawni eu llawn botensial. Diben arall yw hysbysu rhieni a'r cyhoedd am ansawdd addysg feithrin. Rhaid rhoi copi o'r adroddiad arolygu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y feithrinfa a dylai fod ar gael ar gais i bobl eraill.

Mae arolygwyr wedi defnyddio graddfa pum pwynt i gofnodi'r holl farnau. Dyma'r diffiniadau graddau:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

1.0 Cyd-destun y lleoliad

Cyd-destun lleoliad y feithrinfa
Sefydlwyd y lleoliad cyfrwng Cymraeg hwn tua 30 mlynedd yn ôl. Nid yw'n gwasanaethu ardal sydd yn cael ei hystyried yn arbennig o ffyniannus nac yn gymdeithasol ddifreintiedig, ac fe ddaw'r plant o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd amrywiol.

Caiff y lleoliad ei redeg gan bwyllgor rheoli gwirfoddol ac mae'n ddarparydd addysgol fel aelod o Bartneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Ynys Môn. Mae hefyd yn aelod o'r Mudiad Ysgolion Meithrin.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant rhwng dwy a hanner a phedair oed ac mae ar agor am bedwar bore'r wythnos. Allan o gyfanswm o wyth plentyn sydd wedi cofrestru i fynychu sesiynau gwahanol, mae un dan dair oed ac mae saith wedi dathlu eu trydydd pen-blwyddi. Nid oes yr un wedi cyrraedd eu pedair oed eto. O dan drefniadau Bartneriaeth leol, mae llefydd y plant tair oed yn gymwys i gael eu hariannu.

Mae'r lleoliad yn medru darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal ag ar gyfer plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ond adeg yr arolygiad nid oedd unrhyw blant felly ar y gofrestr. Cymraeg yw'r iaith gyntaf a siaredir yng nghartrefi tua hanner y plant.

Cynhelir gweithgareddau mewn ystafell yn Neuadd Bentref Talwrn, ger Llangefni. Mae gan y lleoliad hefyd ddefnydd o lecyn awyr agored diogel sydd newydd ei ddatblygu.

Caiff y lleoliad ei staffio gan arweinydd a chymhorthydd sydd â chymwysterau Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg yn y Blynyddoedd Cynnar. Mae'r arweinydd yn newydd iawn i'w swydd ac mae'r lleoliad wedi profi nifer o newidiadau staffio yn y blynyddoedd diwethaf.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Ionawr 2009. Dyma'r tro cyntaf iddo gael ei arolygu gan Estyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad ar foreau'r 27ain a'r 28ain o Ionawr 2010.

2.0 Prif ganfyddiadau'r adroddiad

2.1 Ansawdd a safonau cyffredinol darpariaeth addysgol a ph'un a yw'r ddarpariaeth yn hyrwyddo'r nodau ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus ai peidio

Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol yn briodol ac yn hyrwyddo Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus .

2.2 Safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

Maes dysgu	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	2
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	1
Datblygiad mathemategol	2
Datblygiad yn y Gymraeg	Ddim yn berthnasol i'r arolygiad hwn
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	2
Datblygiad corfforol	2
Datblygiad creadigol	1

2.3 Barn arolygu ar ansawdd yr addysg a ddarperir gan y lleoliad

Ansawdd yr addysg	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant	2
Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant	2
Ansawdd yr addysgu	1
Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant, ac adroddiadau i rieni a gofalwyr	2
Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned	1
Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant	2
Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad	2
Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf	Dyma'r arolygiad cyntaf

3.0 Y safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

Safonau a gyflawnir gan blant 3-4 oed

3.1 Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Mae plant yn cyflawni safonau da yn eu datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae pob plentyn yn ymgartrefu'n dda a llwyddant yn gyflym i ymgyfarwyddo gyda gweithdrefnau'r lleoliad. Mae ganddynt berthynas dda gyda'i gilydd ac mae bron bob un ohonynt yn ymateb yn syth i gyfarwyddiadau'r staff.

Dangosa'r holl blant hyder cynyddol a gofynnant am gymorth os ydynt ei angen. Mae bron bob un ohonynt yn ymateb yn gadarnhaol i ymwelwyr ac yn mwynhau rhannu eu dysgu gyda nhw.

Mae bron bob plentyn yn dangos parodrwydd i fentro wrth iddynt weithio yn y llecynnau dysgu ac yn yr awyr agored. Mae lefelau canolbwyntio yn datblygu'n dda ac fe ddangosant ddyfalbarhad da pan mae pethau yn anodd iddynt.

Mae'r holl blant yn dangos lefelau da o annibyniaeth ac maent yn deall yr angen i olchi eu dwylo ar ôl bod yn y tŷ bach, a chyn bwyta.

Mae ymwybyddiaeth bob plentyn o draddodiadau Cymru yn datblygu'n dda, ac felly hefyd eu hymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill trwy astudio bywyd plant mewn gwledydd cyferbyniol.

Maent i gyd yn mwynhau defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol i atgyfnerthu eu dysgu.

Diffygion
Nid oes unrhyw ddiffygion o bwys.

3.2 Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Mae plant yn cyflawni safonau da gyda nodweddion rhagorol yn natblygiad eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

Nodweddion rhagorol
Mae medrau cyfathrebu'r plant ar lafar yn nodwedd rhagorol o'u datblygiad. Mae'r dysgwyr o'r Gymraeg yn dod yn gyflym i fedru cyfathrebu'n effeithiol ac mae'r rhai hynny sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt yn mynegi eu hunain yn glir ac yn synhwyrol mewn iaith raenus, yn aml mewn brawddegau estynedig. Defnyddiant eirfa bwnc benodol yn gywir bron yn ddieithriad.

Nodweddion da
Mae gan bob plentyn y gallu i wrando'n dda. Maent yn gwrando'n astud ar y storiau amrywiol a gyflwynir iddynt ac maent yn awyddus iawn i ymateb i gwestiynu ac i sôn am y gwahanol gymeriadau.

Maent wedi dechrau troi at lyfrau o'u gwirfodd ac wedi dysgu sut i'w trin yn gywir. Mae bob plentyn yn adnabod eu henwau eu hunain, a'u cymheiriaid mewn rhai achosion.

Mae pob plentyn yn mwynhau arbrofi gyda gwahanol offer marcio. Gwnânt hynny'n aml gyda phwrpas, megis paratoi archebion bwyd yng nghaffi'r lleoliad.

Diffygion
Nid oes unrhyw ddiffygion o bwys.

3.3 Datblygiad mathemategol

Mae plant yn cyflawni safonau da yn eu datblygiad mathemategol ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae gan yr holl blant ddiddordeb mewn defnyddio rhifau ac mae'r rhan fwyaf yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir tra'n chwarae.

Mae pob plentyn yn medru cyfrif yn gywir wrthrychau sy'n gyfarwydd iddynt ac maent yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth trwy ganu ystod o ganeuon a rhigymau rhif gwahanol. Dangosant ddealltwriaeth dda o'r cysyniadau mathemategol sy'n gysylltiedig â'r rhigymau megis 'un yn llai' ac 'un yn fwy'.

Mae pob plentyn yn dod i fedru didoli gwrthrychau fel cnau ac afalau o wahanol faint, ynghyd ag esgidiau sydd yn fach, canolig a mawr. Gallant gyfatebu un wrth un yn gywir ac maent yn medru copio patrymau sylfaenol o losin sydd yn wahanol o ran lliw a siâp. Mae pob plentyn yn cyfrannu at y drafodaeth ar y patrymau sydd yn y cebabau ffrwythau maent wedi paratoi.

Trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau tywod a dŵr, mae pob plentyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynhwysedd a mas. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gynnar o arian ac mae rhai plant yn adnabod gwerth y gwahanol ddarnau.

Diffygion
Nid oes unrhyw ddiffygion o bwys.

3.4 Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Mae gan blant wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r byd ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae pob un o'r plant yn barod i archwilio'r hyn sydd o'u cwmpas ac yn elwa ar y cyfleoedd gânt i werthfawrogi'r amgylchedd a'i bwysigrwydd. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r tymhorau a'u nodweddion.

Maent yn mwynhau trafod y tywydd o ddydd-i-ddydd ac yn medru cysylltu'r math o ddillad sydd angen ar gyfer gwahanol fathau o dywydd. Maent yn wybodus o effaith hinsawdd ar ffordd bobl o fyw mewn gwledydd twym ac oer.

Maent i gyd yn gyfarwydd â phlannu a gofalu am fylbiau. Gallant adnabod gwahanol ffrwythau a llysiau yn ôl eu henwau cywir.

Trwy eu teithiau o gwmpas y pentref mae'r holl blant wedi dod i wybod am swyddogaethau gweithwyr fel adeiladydd, plastrwr a siopwraig. Maent yn siarad yn hyderus am eu cartrefi.

Mae pob plentyn yn mwynhau paratoi bwyd i'r adar ar fore oer yn ystod y gaeaf a gwyddant am bwysigrwydd eu bwydo yr adeg hynny o'r flwyddyn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau deall trefn dyddiau'r wythnos ac mae pob plentyn yn gyfarwydd iawn â threfn ddyddiol y lleoliad, gyda rhai unigolion yn gallu synhwyro'n gywir iawn yr hyn sydd i ddod nesaf.

Diffygion
Nid oes unrhyw ddiffygion o bwys.

3.5 Datblygiad corfforol

Mae plant yn cyflawni safonau da yn eu datblygiad corfforol ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae pob plentyn yn gwneud defnydd cymwys o offer fel brwsys paent, rholeri, pensiliau, creonau, siswrn, a chyllyll mewn amrywiaeth da o weithgareddau wrth iddynt ddatblygu eu medrau echddygol manwl yn effeithiol. Gallant ddefnyddio gefel hefyd yn gywir i godi afalau allan o badell ac arllwys hylif i gynwysyddion.

Mae pob plentyn yn symud yn hyderus gyda fwyfwy o reolaeth gorfforol, cydbwysedd a chydlyniad. Mae bron pob un yn sensitif i chwarae plant eraill. Mewn gweithgareddau symud a phan mae'r gofod yn gyfyngedig, maent yn symud o gwmpas yn ddiogel.

Mae medrau echddygol bras y plant i gyd yn cael eu datblygu ymhellach wrth iddynt ddefnyddio teganau mawr y mae angen eu pedlo, ynghyd â chyfleoedd i ddefnyddio'r sleid.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig, fodd bynnag, byddai plant yn elwa o gael mynediad at ffrâm ddringo.

3.6 Datblygiad creadigol

Mae plant yn cyflawni safonau da gyda nodweddion rhagorol yn eu datblygiad creadigol.

Nodweddion rhagorol
Mae'r modd y mae'r plant yn cymryd at gwahanol rolau yng nghaffi'r lleoliad yn nodwedd ragorol o'u datblygiad. Maent yn llwyr ymgolli yn y gwahanol gymeriadau ac yn siarad yn hynod bwrpasol â'i gilydd am yr hyn maent yn ei wneud.

Nodweddion da
Mae pob plentyn yn ymateb yn gadarnhaol i'r amrywiaeth o ganeuon a gyflwynir iddynt. Canant yn swynol a brwdfrydig. Gallant gadw curiad da wrth gyfeilio gyda'u hofferynnau i'w hoff ganeuon. Medrant enwi nifer o offerynnau traw.

Mae pob un o'r plant yn mwynhau'r cyfleoedd i weithio'n greadigol gydag amrywiaeth o ddefnyddiau gwneud a rhai naturiol. Cânt gryn hwyl wrth baentio ac fe ymdrechant i greu cyfanweithiau deniadol. Maent yn siarad yn hyderus am eu gwaith ac yn esbonio pam maent yn gwneud eu dewisiadau.

Diffygion
Nid oes unrhyw ddiffygion o bwys.

4.0 Ansawdd y ddarpariaeth addysgol

Ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant 3-4 oed

4.1 Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae gweithgareddau a gweithdrefnau beunyddiol y lleoliad yn meithrin yn effeithiol ddealltwriaeth plant o werthoedd pwysig fel tegwch, diolchgarwch a pharch tuag at

bobl eraill. Caiff plant eu dysgu i weithio'n dda gyda'i gilydd a chânt eu hannog i fod yn gwrtais drwy'r amser.

Gwneir llawer o ymdrech i sicrhau bod plant o gefndir ieithyddol Saesneg yn cael gafael gadarn ar yr iaith Gymraeg. Caiff yr holl blant gyfleoedd i chwarae rhan mewn gwahanol weithgareddau gan gynnwys eisteddfodau, a chyngherddau sy'n dathlu traddodiadau a diwylliant Cymru yn effeithiol.

Caiff plant gyfleoedd addas i ddysgu am ddathliadau Cristnogol fel y Geni, ac i ddysgu am amryfaliaeth trwy eu hastudiaethau o blant o wahanol wledydd, ynghyd â chwarae gyda theganau amlddiwylliannol y lleoliad.

Mae eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd bod yn ddiolchgar yn cael ei feithrin ymhellach trwy adrodd gweddi fer cyn cael eu byrbrydau canol bore ac ar derfyn y sesiwn.

Diffygion
Nid oes unrhyw ddiffygion o bwys.

4.2 Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant

Mae ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r cynllunio o ansawdd da ac yn adlewyrchu'n llawn ofynion y Cyfnod Sylfaen fel y'u hamlinellir yn y *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru.*

Caiff pob plentyn gyfle cyfartal i fanteisio ar y rhaglen waith gytbwys sy'n rhoi ystyriaeth deilwng i'r holl feysydd dysgu dros gyfnod o amser. Wrth gynllunio, rhoddir sylw da i'r Cwricwlwm Cymreig, cydraddoldeb hiliol ac i feithrin ymwybyddiaeth plant o amryfaliaeth.

Mae'r staff yn cynllunio trwy gyfres o themâu sydd yn ystyrlon i'r plant ac yn aml wedi'u selio ar brofiadau uniongyrchol.

Mae cynnydd a pharhad yn y dysgu yn nodwedd glir o'r rhaglen a cheir cydbwysedd da rhwng cynllunio ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a rhai sydd yn cael eu harwain gan staff. Nodir yn glir o fewn y cynllunio wythnosol pa fedrau sydd i'w datblygu mewn gweithgareddau ffocws.

Diffygion
Nid oes unrhyw ddiffygion o bwys, ond mae enghreifftiau o'r gwerthusiadau wythnosol o'r cynllunio sydd yn canolbwyntio'n ormodol ar yr hyn mae plant wedi mwynhau heb bwysleisio'n ddigonol y camau nesaf yn y dysgu.

4.3 Ansawdd yr addysgu

Mae ansawdd yr addysgu yn dda gyda nodweddion rhagorol.

Nodweddion rhagorol
Mae gan y staff lefelau uchel iawn o gymhelliant sydd yn cael ei drosglwyddo'n hynod o effeithiol i'r plant. Cymerant ran weithredol mewn gweithgareddau gan ymestyn pob plentyn hyd eithaf ei allu. Llwyddant i wneud y dysgu yn hwyl gyda cysondeb trawiadol. Mae'r adnoddau dysgu a wneir yn benodol ar gyfer plant y lleoliad hefyd yn aml o ansawdd rhagorol.

Nodweddion da
Mae'r staff yn gyson yn y ffordd y maent yn trin y plant. Mae gan y staff berthynas dda iawn gyda'r plant a'u teuluoedd, a darparant ofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel.

Mae'r amgylchedd dysgu yn gadarnhaol iawn a gwneir ymdrech fawr i ddatblygu hyder a gallu'r plant sydd yn newydd i'r iaith Gymraeg. Mae gan staff gymwysterau da, ynghyd â gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

Defnyddir nifer o strategaethau addysgu gwahanol a chânt eu rheoli'n effeithiol iawn. Mae'r staff yn gwybod yn dda pa bryd i ymyrryd yn y dysgu a phryd i adael llonydd i blant. Mae amser yn cael ei ddefnyddio'n dda ac mae'r disgwyliadau yn uchel.

Mae'r adnoddau yn cael eu defnyddio'n dda ac erbyn hyn caiff y plant eu haddysgu fwyfwy yn yr awyr agored. Mae gwaith y plant yn cyfrannu'n dda tuag at yr amgylchedd dysgu.

Gweithredir yn effeithiol ar fewnbwn athrawes gyswllt y bartneriaeth leol sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad y lleoliad.

Diffygion
Nid oes unrhyw ddiffygion o bwys.

4.4 Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant ac adroddiadau i rieni a gofalwyr

Mae ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant ac adroddiadau i rieni a gofalwyr yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r gweithdrefnau asesu a chofnodi yn effeithiol ac yn cynrychioli ffordd systematig o weithio. Maent yn cynnwys cyfraniad rhieni drwy ofyn iddynt lenwi llyfryn 'Ffwrdd a Ni i'r Cylch' sydd yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol fel sail i ddod i adnabod unigolion a'u hanghenion yn well wrth iddynt gychwyn yn y lleoliad.

Mae'r staff yn cadw nodiadau maes clir ar ddatblygiadau arwyddocaol yn yr holl feysydd dysgu ac fe gaiff rhain eu throsglwyddo i 'Llyfr Arsylwadau' a gedwir ar gyfer pob plentyn. Nodir hefyd y camau nesaf sydd angen yn y dysgu. Maes o law, bydd yr wybodaeth yma yn cael ei drosglwyddo i'r ysgol gynradd leol gan sicrhau elfen o barhad yn y gwaith o fonitro cynnydd plant.

Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant. Caiff gwaith ei ddanfon gartref yn rheolaidd i'w ddathlu ac fe gynhelir boreau agored yn dymhorol i drafod cynnydd ac archwilio gwaith y plant. Mae yna ddrws agored hefyd i rieni holi ar unrhyw adeg. Darperir adroddiadau ysgrifenedig i rieni yn ystod tymor yr Haf.

Yn ogystal, cedwir samplau arwyddocaol o waith plant ar gyfer eu rhwymo mewn 'Llyfr Trysor' sydd yn amlwg yn cael eu gwerthfawrogi gan rieni a phlant fel ei gilydd .

Diffygion
Nid oes unrhyw ddiffygion o bwys.

4.5 Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned

Mae ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned yn dda gyda nodweddion rhagorol.

Nodweddion rhagorol
Mae'r modd y derbynia'r lleoliad gefnogaeth ei rieni a'i gymuned yn nodwedd ragorol. Cynhelir amrywiaeth eang o weithgareddau sydd nid yn unig yn fodd i godi arian tuag at gostau rhedeg, maent hefyd yn cael eu hystyried yn ddigwyddiadau cymdeithasol pwysig. Perthyn y lleoliad i gymuned wledig glos sydd yn barod iawn i estyn llaw a chydweithio'n arbennig o dda.

Nodweddion da
Mae'r ymatebion o fewn yr holiaduron cyn-arolygiad a ddychwelwyd yn gadarnhaol iawn ac fe dderbyniwyd nifer o sylwadau ysgrifenedig cefnogol a gwerthfawrogol am y ddarpariaeth.

Mae rhieni yn cael cyfle i ymweld cyn i'w plant gychwyn ac fe gyflwynir iddynt lawlyfr cynhwysfawr a chyfoes sydd yn egluro sut mae'r lleoliad yn gweithio. Ceir ynddo er enghraifft ddatganiad o amcanion, manylion am y cyfrwng iaith, meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen, ynghyd â rhestr fuddiol o'r holl bolisiau sydd wedi eu mabwysiadu.

Caiff ystod dda o wybodaeth ei harddangos i rieni ar hysbysfwrdd y lleoliad, sydd wedi'i osod yn gyfleus yng nghyntedd y fynedfa. Mae hyn yn cynnwys manylion am y thema gyfredol, y gweithgareddau dysgu a phwyntiau cyswllt. Mae'r staff yn paratoi hysbysiadau rheolaidd er sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda rhieni.

Gwneir defnydd da o'r amgylchedd leol ac unigolion i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant.

Diffygion
Nid oes unrhyw ddiffygion o bwys.

4.6 Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant

Mae'r graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau clir ar gyfer lles plant ac fe'u gweithredir yn gyson. Mae'r staff yn ofalgar iawn o blant ac yn gwneud yn siŵr y cânt i gyd eu gwerthfawrogi a'u cynnwys. Mae'r berthynas agos sydd rhyngddynt yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygiad meddyliol ac emosiynol pob plentyn.

Mae'r trefniadau diogelwch yn briodol ac yn sicrhau nad oes yr un plentyn yn gadael heb gwmni na bod unrhyw oedolyn yn dod i mewn yn ddirybudd. Caiff plant eu goruchwylio'n dda bob amser ac mae trefniadau clir mewn lle ar gyfer rhwystro'r plant rhag wynebu peryglon posibl.

Mae byrbrydau yn ddigwyddiadau da a chymdeithasol. Golcha'r plant eu dwylo cyn bwyd ac fe ddarperir bwydydd iach ar eu cyfer.

Cânt gyfleoedd rheolaidd i chwarae'n egniol yn yr awyr agored.

Mae gweithdrefnau clir ar gyfer delio â damweiniau neu ddigwyddiadau. Cedwir cofnodion priodol ohonynt yn ogystal ag asesiadau risg trylwyr ac ymarferion tân sydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Mae polisi'r lleoliad ar Amddiffyn Plant yn glir ac mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ac yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn. Mae'r pwyntiau cyswllt yn glir i rieni ar yr hysbysfwrdd petai angen.

Diffygion
Nid oes unrhyw ddiffygion o bwys.

4.7 Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y lleoliad

Mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y lleoliad yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r arweinydd yn newydd i'w swydd, ond mae eisoes wedi sicrhau ymdeimlad o bwrpas i'r gwaith ac mae'n cynnig arweiniad da. Mae'n cydweithio'n effeithiol gyda'i chymhorthydd ac mae'r gweithdrefnau a'r arferion beunyddiol yn hyrwyddo safonau uchel a chyfleoedd cyfartal i bawb.

Mae cyfres o bolisiau yn seiliedig ar y rhai a baratowyd gan Mudiad Ysgolion Meithrin wedi eu mabwysiadu a cheir adlewyrchiad da ohonynt yn y gwaith bob dydd.

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cymryd ei gyfrifoldebau o ddifrif; mae'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn gefnogol iawn i staff a phlant y lleoliad. Mae gwerthusiadau staff wedi eu cwblhau yn ôl y gofynion.

Mae'r staff yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol ac yn cefnogi'n dda gyrsiau hyfforddiant fel y gwahanol unedau ar y Cyfnod Sylfaen a'r defnydd o'r ardal tu allan a ddarperir ar eu cyfer gan Bartneriaeth Ynys Môn. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau ac ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae staff yn dod yn fwyfwy hyderus gyda phrosesau hunan-arfarnu ac maent eisoes wedi dechrau adnabod a gweithredu ar yr hyn sydd angen i symud y lleoliad ymlaen.

Diffygion
Mae llawer wedi ei gyflawni'n ddiweddar o ran dechrau datblygu'r ardal allanol, fodd bynnag, nid yw ei botensial eto fel cyfrwng dysgu wedi ei wireddu'n llawn.

4.8 Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf

Dyma'r tro cyntaf i'r lleoliad gael ei arolygu gan Estyn.

5.0 Argymhellion

Mae angen i'r lleoliad:

A1: Gynnal ac adeiladu ar y safonau uchel a gyflawnir gan blant;

A2: Barhau i ddatblygu'r ardal allanol fel cyfrwng dysgu.

Rhaid i'r darparwr lunio cynllun gweithredu ymhen 40 diwrnod gwaith, neu 45 diwrnod gwaith os oes angen cyfieithu'r cynllun i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg, gan ddangos sut eir i'r afael â'r materion a nodir uchod. Rhaid rhoi'r cynllun gweithredu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y lleoliad. Rhaid anfon copi o'r cynllun gweithredu at Gadeirydd y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant neu'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, fel y bo'n briodol, ac i'r Awdurdod Lleol. Bydd arfarniad o'r camau a gymerwyd yn ffurfio rhan o'r arolygiad nesaf.